# Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau:

## Cyflwyniad i'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu: 4 Rhagfyr 2017

*(Diwygiwyd yn dilyn adborth GCA yn ystod gweithdy Maes Dysgu a Phrofiad 11 Rhagfyr 2017)*

V0.2 – Diwygiad Ôl GCA 18 Rhagfyr 2017

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad……………………………………………………………………1

1. Ymateb GCA (Rhagfyr 2017) 3
2. Datganiad sy'n diffinio 'beth sy'n bwysig' yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad……......................................................................................... 4

3. Teitlau cychwynnol ar gyfer meysydd 'beth sy'n bwysig'…………….4

   6 Datganiadau…………………………………………………………….. 6

4. Pa mor briodol yw datganiadau Beth sy'n Bwysig i'w haddysgu ym mhob rhan o'r Continwwm Dysgu …………………………………….9

# Cyflwyniad

## Cyflwyniad – Amlinelliad o'r camau a gymerwyd yn ystod tymor yr hydref 2017

Yn ystod tymor yr haf, comisiynodd grŵp Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau nifer o bapurau gan arbenigwyr a nodwyd o bob rhan o'r Dyniaethau. Y briff a roddwyd i'r arbenigwyr hyn oedd egluro 'beth sy'n bwysig' o fewn disgyblaethau cyfansoddol y dyniaethau: - Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol, Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol.

Darperir rhestr o'r papurau hyn isod: -

- Eleanor Rawling – *Commissioned Work on the Geography Curriculum*
- Y Gymdeithas Ddaearyddol – *Geographical Association and the Big Ideas*
- Dr Barbara Wintersgill (Prifysgol Caerwysg) – *Big Ideas for RE Education*
- Dr Elin Jones – *The Essentials of History*
- Yr Athro Calvin Jones (Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd) - *Business and the Economy in the Donaldson Curriculum*
- Dr Claire Sinnema (Prifysgol Auckland)

i) *Social Studies within the Humanities Area of Learning and Experience*

ii) *Designing a National Curriculum with enactment in mind*

- CCYSAGauC (Cymdeithas CYSAGau Cymru) *Religious Education:*

*supporting the early stages of the process of developing the Humanities' AoLE*

Ystyriodd y grŵp hefyd: -

- Dr Joseph Smith:- *What remains of history? Historical epistemology and historical understanding in Scotland's Curriculum for Excellence*
- Cyflwyniad gan yr Athro Mark Priestley a wnaed i Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad – *Developing the Curriculum, Concepts and Practices.*
- Adrannau dethol o: - Wiggins, G a McTighe, J (2005) *Understanding by Design*; Alexandria VA: ASCD( *(i roi seiliau damcaniaethol a helpu'r grŵp i ddeall gwreiddiau 'syniadau mawr' yn y cwricwlwm.)*

Yn ystod tymor yr hydref, gwahoddodd grŵp Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau lawer o'r cyfranogwyr uchod i roi cyflwyniad i'r grŵp, er mwyn rhoi cyd-destun i'r papurau. Rhoddodd yr unigolion canlynol gyflwyniad i'r grŵp.

- Gill Miller (Y Gymdeithas Ddaearyddol)
- Eleanor Rawling (Ymgynghorydd Annibynnol ar y Cwricwlwm)
- Dr Elin Jones
- Yr Athro Calvin Jones (Prifysgol Caerdydd)
- CCYSAGauC

Cafodd y grŵp hefyd adborth ar dasg 1, datganiad ar y ffordd y mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r 4 diben gan Dr. Claire Sinnema a drafft cychwynnol cysyniadau 'beth sy'n bwysig' ar gyfer Hanes gan Dr. Joseph Smith.

Yn ystod y sesiynau gweithdy, gweithiodd y grwpiau ar y tasgau canlynol:-

| Dyddiadau | Gweithgareddau Allweddol |
|---|---|
| Medi 27/28 | Beth yw ystyr 'Syniadau Mawr' a sut mae hyn yn gysylltiedig â 'Beth sy'n Bwysig' yn y cwricwlwm?<br>Ystyried 'Beth sy'n Bwysig' mewn Hanes a Daearyddiaeth<br>Crynodeb o'r gwaith ymchwil ar ddatblygiad dysgu yn y Dyniaethau o Brosiect Camau |
| Hydref 17/18 | Ystyried 'Beth sy'n Bwysig' mewn Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol |
| Tachwedd 13/14 | Ystyried 'Beth sy'n Bwysig' mewn Addysg Grefyddol<br>Cydgrynhoi dysgu er mwyn datblygu 'Beth sy'n Bwysig' yn y Dyniaethau, ynghyd â datblygu naratif cefnogol. |
| Rhagfyr 13/14 | Ystyried 'Beth sy'n Bwysig' yn dilyn sylwadau’r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu (GCA) a rhoi proses CAMAU ar waith. |

Fel yr amlinellir yn y tabl uchod, dechreuodd y grŵp drwy ofyn y cwestiwn 'beth sy'n bwysig?' ym mhynciau cyfansoddol y Dyniaethau (fel y'u diffiniwyd yn Dyfodol Llwyddiannus). Ym mhob sesiwn gweithdy 2 ddiwrnod, rhannwyd y diwrnodau er mwyn cyflwyno deunydd newydd i'r grŵp e.e. y papurau a gomisiynwyd a'r cyflwyniad, ond hefyd i roi cyfle iddynt wneud synnwyr ohonynt. Roedd hyn yn hanfodol gan fod angen i'r ymarferwyr ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r

disgyblaethau cyfansoddol gyda'r bwriad o benderfynu 'beth sy'n bwysig' o safbwynt y Dyniaethau fel endid mwy integredig.

**Ymateb GCA (Rhagfyr 2017)**

Mae'r grŵp wedi ailedrych ar y datganiadau gwreiddiol yn dilyn sylwadau'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu ym mis Rhagfyr a wnaeth y sylwadau canlynol

- Mae'r naratifau ategol yn amlwg yn adlewyrchu'r pedwar diben
- Mae angen ailedrych ar y datganiadau a'u hadolygu er mwyn sicrhau bod mwy o'r sylwadau/negeseuon naratif yn amlwg (collwyd negeseuon rhwng y ddau)
- Mae'r graddau y mae'r datganiadau Beth sy'n Bwysig yn adlewyrchu penodolrwydd, tra'n parchu ymreolaeth athrawon yn dal i fod yn her.
- Mae angen ystyried y prif egwyddorion gan gynnwys addysgeg a chanllawiau pwnc

O ganlyniad dyma'r datganiadau diwygiedig drafft presennol. Fel y gallwch weld ni lwyddodd y grŵp i gwblhau ei holl waith yn yr amser a roddwyd felly bydd yn dychwelyd at y gwaith hwn ar ddechrau mis Ionawr 18.

## 1. Datganiad sy'n diffinio 'beth sy'n bwysig' yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad

*Mireiniodd y grŵp dasg 1 o'r adroddiad cychwynnol a ddatblygwyd yn ystod tymor yr Haf, ar sail yr adborth a roddwyd gan Dr Claire Sinnema, Prifysgol Auckland.*

Drwy ystyried 'beth sy'n bwysig' am y Dyniaethau, bydd disgyblion yn astudio'r gorffennol a'r presennol, yn dychmygu dyfodol posibl, ac yn dysgu am bobl, lle, amser a chredoau.

Bydd disgyblion yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o wahanol amseroedd, lleoedd a chredoau, yn eu cyfleu a'u cymhwyso yn effeithiol, er mwyn dod yn **ddysgwyr uchelgeisiol a galluog**.

Byddant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau a rhinweddau, er mwyn dod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol,** er mwyn gwella bywydau bob dydd pobl yn eu cymuned leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Drwy ddeall a pharchu gwahanol gredoau a deall sut i arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd, bydd disgyblion yn dod yn **ddinasyddion moesegol, hyddysg**.

Drwy arddel barn bersonol am faterion yn ymwneud â ffydd, ysbrydolrwydd, cynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol byddant yn dod yn **unigolion iach, hyderus**, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.


Bydd disgyblion yn:

- deall cysyniadau hanesyddol, daearyddol, gwleidyddol, economaidd, crefyddol a chymdeithasol.
- archwilio eu hamgylchedd er mwyn datblygu eu hymdeimlad o le a lles ymhellach.
- cymryd rhan mewn profiadau dysgu am hawliau, gwerthoedd, moeseg, credoau, crefydd, athroniaeth ac ysbrydolrwydd.
- ystyried, archwilio a gwneud dewisiadau hyddysg ynghylch cynaliadwyedd a'r effaith ar eu gweithredoedd.
- gwneud cyfraniad cadarnhaol at eu cymuned ac ymgysylltu â materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar lefel gritigol er mwyn dod yn ddinesydd cyfrifol yng Nghymru a thu hwnt.

## 2. Teitlau cychwynnol ar gyfer meysydd 'beth sy'n bwysig'

Mae'r grŵp wedi datblygu chwe chysyniad 'beth sy'n bwysig', sy'n ceisio integreiddio'r dyniaethau'n llawn fel endid cydlynol a rhoi ystyr i'r maes. Datblygwyd y rhain drwy broses o haniaethu o'r pwynt cychwynnol 'beth sy'n bwysig' o safbwynt y disgyblaethau cyfansoddol.

Y ffordd orau o egluro'r broses hon yw drwy ystyried y ffotograff anodedig isod:-




Aeth y grwpiau ati i fapio/grwpio cysyniadau 'beth sy'n bwysig' o ddisgyblaethau pwnc i gysyniadau cyffredinol

Hanes – Melyn

Daearyddiaeth – Glas

Addysg Grefyddol – Pinc Tywyll

Gwyddorau Cymdeithasol/

Busnes - Oren

Nodwyd cysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill a chyfleoedd i ddatblygu Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd (fel amlinelliad – Pinc Golau))

Derbyniwyd y byddai rhai o'r 'cysyniadau' a nodwyd i'w gweld mewn mwy nag un o'r grwpiau o gysyniadau 'Beth sy'n Bwysig' e.e. cynaliadwyedd a gwrthdaro.

**6 Datganiad diwygiedig yn dilyn sylwadau GCA**

1) Effaith parhad, newid ac amrywiaeth ar ein byd
2) Mae cymuned, diwylliant a phŵer yn dylanwadu ar gymdeithas
3) Mae dynoliaeth yn wynebu llawer o heriau sy'n gofyn am ymatebion gwybodus ac ystyriol
4) Mae pobl yn dehongli ac yn cynrychioli'r byd mewn ffyrdd gwahanol
5) Drwy ddatblygu meddyliau ymchwilgar, gall pobl wneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef
6) Mae dinasyddion cyfrifol yn foesegol wybodus, yn meddwl yn feirniadol ac yn chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas

**1. Effaith parhad, newid ac amrywiaeth ar ein byd**

Rhesymeg:
Mae deall cymhlethdodau a chysylltiadau gorffennol, presennol a dyfodol ein byd yn bwysig i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun yr amgylchedd ffisegol a dynol. Mae deall y prosesau sy'n llywio'r dirwedd ffisegol ac ymwybyddiaeth o sut y gall gweithredoedd dynol gael eu dylanwadu gan gredoau, gwerthoedd ac athroniaethau amrywiol yn hanfodol. Drwy ystyried disgyblaethau'r Dyniaethau gellir nodi, deall a dadansoddi achosion, parhad ac effeithiau newid. Bydd arloesedd a datblygiadau technolegol yn parhau i lywio ein byd amrywiol. Mae gwerthfawrogiad o heriau a chyfleoedd y dyfodol ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol yn cefnogi dealltwriaeth gadarn ac empathetig o fywydau eraill, nawr ac yn y dyfodol.

**2. Mae cymuned, diwylliant a phŵer yn dylanwadu ar gymdeithas**

Rhesymeg:

Bydd disgyblion yn dod yn ymwybodol bod y ffordd y mae unigolion, grwpiau, cymunedau, sefydliadau a gwledydd yn rhyngweithio â'i gilydd wedi dylanwadu ar natur y byd rydym yn byw ynddo, ac yn parhau i wneud hynny. Byddant yn deall ac yn gwerthfawrogi natur dulliau o ryngweithio a'u heffeithiau cadarnhaol a negyddol ar

yr amgylchedd lleol, cenedlaethol a byd-eang. Byddant yn gofyn cwestiynau, yn ymchwilio, yn gwerthuso'n feirniadol, ac yn datblygu safbwyntiau hyddysg ac ystyriol ar achosion, natur ac arwyddocâd y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â'i gilydd ac â'u hamgylchedd, yn unigol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Bydd disgyblion yn nodi achosion o ryngweithio yn y gorffennol, yn eu deall ac yn ymchwilio iddynt er mwyn gwerthfawrogi arwyddocâd unigolion, grwpiau, cymunedau, sefydliadau a gwledydd wrth ffurfio'r byd a'i ddatblygiad. Byddant yn ymchwilio i effaith dulliau o ryngweithio mewn ffyrdd crefyddol ac ysbrydol ar fywydau unigolion, cymunedau, gwledydd a'r byd. Byddant yn meithrin gwerthfawrogiad empathetig o amrywiaeth yn ein cymunedau a ledled y byd ac o arwyddocâd ysbrydolrwydd.

(Mae'r grŵp am wneud fwy o waith ar y datganiad yma)

**3. Mae dynoliaeth yn wynebu llawer o heriau sy'n gofyn am ymatebion gwybodus ac ystyriol**

Rhesymeg: -

Mae'n bwysig o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau fod yn ymwybodol o'r cwestiynau anodd a sylfaenol sy'n herio pob bod dynol. Bydd astudio'r Dyniaethau yn golygu y gellir nodi, deall ac ymgysylltu â materion cyfoes perthnasol sy'n effeithio ar fywydau disgyblion, bywydau pobl eraill a'r byd ehangach. Mae'n bwysig gofyn cwestiynau, ymchwilio, gwerthuso'n feirniadol, a datblygu ymatebion hyddysg ac ystyriol i'r heriau sy'n wynebu dynoliaeth. Mae gallu ymateb yn empathetig i gredoau, gweithredoedd a gwerthoedd eraill yn bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau er mwyn datrys problemau a gwrthdaro. Bydd myfyrwyr y Dyniaethau yn datblygu gwydnwch ac agweddau diduedd a pharch priodol lle y bo'n briodol wrth feddwl am eu safbwyntiau nhw a ffyrdd o fyw eraill. Bydd disgyblion yn datblygu'r gallu i lunio a chefnogi eu safbwyntiau eu hunain. Mae ymrwymiad i'n cymdeithasau lleol, cenedlaethol a byd-eang ac i gynaliadwyedd y blaned yn rhan hanfodol o addysg y Dyniaethau.

**4. Mae pobl yn dehongli ac yn cynrychioli'r byd mewn ffyrdd gwahanol**

Rhesymeg: -

Er mwyn bod yn ddinasyddion beirniadol a hyddysg ac er mwyn deall y ffordd mae cymdeithas wedi gweithredu, y ffordd mae'n gweithredu nawr a'r ffordd mae'n

debygol o weithredu yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod disgyblion yn deall amrywiaeth o safbwyntiau a sut y caiff y rhain eu siapio gan ddylanwadau gwahanol. Drwy ddeall hyn, mae hefyd yn bwysig bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sydd wedi siapio eu hunaniaeth.

Bydd astudio'r Dyniaethau yn golygu y gellir ymchwilio i gymhlethdodau problemau'r byd go iawn a gwerthfawrogi sut y gellir dadansoddi'r materion hyn mewn ffyrdd gwahanol. Gellir meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion i'w galluogi i fod yn ymwybodol ohonynt hwy eu hunain a safbwyntiau eraill. Gellir datblygu'r gydnabyddiaeth a'r ddealltwriaeth o'r ffordd y mae hunaniaethau yn cael eu ffurfio a'u datblygu dros amser drwy astudio Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Drwy feddwl yn feirniadol ac archwilio gwahanol safbwyntiau a digwyddiadau, bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn fodd i herio a chefnogi'r safbwyntiau hyn, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth feirniadol o'r 'darlun mawr'.

(Dywedodd y grŵp fod angen i'r datganiad a'r rhesymeg gael eu hadolygu ymhellach)

**5. Drwy ddatblygu meddyliau ymchwilgar, gall pobl wneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef**

Rhesymeg:

Bydd disgyblion yn gofyn cwestiynau sylfaenol a heriol. Byddant yn ymchwilio i faterion mewn modd agored, myfyriol, dadansoddol a chytbwys. Byddant yn casglu tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, yn adnabod tueddfryd, yn dehongli haenau o ystyr ac yn syntheseiddio (cysylltu) gwybodaeth. Drwy feddwl yn feirniadol a dadansoddi, bydd disgyblion yn datblygu ymatebion hyddysg, ystyriol a chyfiawn ac yn gallu cyfleu eu hymatebion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Byddant yn datblygu ymwybyddiaeth ohonynt hwy eu hunain, o bobl eraill, o'r byd a'r Bydysawd.

(Fe newidiodd y grŵp y datganiad ond maent heb drafod y rhesymeg)

**6. Mae dinasyddion cyfrifol yn foesegol wybodus, yn meddwl yn feirniadol ac yn chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas**

Rhesymeg: -

Mae'n bwysig bod astudio'r Dyniaethau yn datblygu dinasyddion gweithredol a chyfrifol sy'n gallu uniaethu â'u cymuned a'r byd ehangach a chyfrannu atynt, nawr ac yn eu bywydau yn y dyfodol. Er mwyn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, dylai disgyblion nodi ffyrdd y gallant fynd i'r afael â 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw (ac i gymdeithas) yn y byd lle maent yn byw. Gall dinasyddion moesegol wybodus feddwl yn feirniadol, ymateb i faterion y maent wedi ymchwilio iddynt ym mhob rhan o'r dyniaethau ac mae angen iddynt chwarae rhan weithredol mewn cymunedau. Mae'r dyniaethau yn fodd i feithrin dealltwriaeth o'u hawliau a pharchu hawliau eraill. Mae deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol a moesol nhw ac eraill a chanlyniadau methu â gweithredu mewn ffordd gyfrifol yn rhan o astudio'r Dyniaethau.

Mae'r Dyniaethau yn hyrwyddo ymgysylltu heddychlon ac effeithiol â chymdeithas ac o fewn cymdeithas.

Caiff gwersi eu dysgu o'r gorffennol a'r presennol; gan fyfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a gweithredoedd eu hunain ac eraill, er mwyn gwneud dewisiadau moesegol a hyddysg. Bydd hyn yn galluogi ymateb drwy fynegi eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain am y gwersi a ddysgwyd a'u cyfiawnhau. Drwy astudio Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, bydd cyfleoedd yn codi i nodi problemau, creu a datblygu atebion posibl, a chymryd camau priodol mewn perthynas â materion yn eu cymuned leol a thu hwnt.

***Cysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill***

Ceir cysylltiadau clir â Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mewn perthynas â'r ffyrdd y mae amgylcheddau ffisegol yn cael eu ffurfio a'u newid e.e. Daeareg a Gwyddorau Daear;

Ceir cysylltiadau clir ag Iechyd a Llesiant.

***21 Rhagfyr 2017***